

Ysgol Reoledig Llanfair Dyffryn Clwyd
Llanfair Dyffryn Clwyd
Rhuthun
Sir Ddinbych LL15 2RU
Ffôn: 01824 703169
E-bost: llanfair.dc@sirddinbych.gov.uk
Gwefan: www.ysgollanfairdc.cymru
Trydar: @ysgllanfairdc



Llanfair Dyffryn Clwyd Controlled School
Llanfair Dyffryn Clwyd
Ruthin
Denbighshire LL15 2RU
Phone: 01824 703169
Email: llanfair.dc@sirddinbych.gov.uk
Website: www.ysgollanfairdc.cymru
Twitter: @ysgllanfairdc

Helen Oldfield BA
Pennaeth

Ysgol Reoledig Llanfair Dyffryn Clwyd

Helen Oldfield BA
Headteacher

5/9/18

Annwyl Rieni

Croeso i bawb yn ôl wedi gwyliau'r haf. Croeso arbennig i 13 o blant i'r Dosbarth Meithrin. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yma yn Ysgol Llanfair. Mae'r cyfnod yma'n un cyffrous yn Ysgol Llanfair ac rydw i'n edrych ymlaen at gydweithio gyda'r disgyblion, rhieni, staff a'r llywodraethwyr wrth baratoi ar gyfer symud i'r ysgol newydd.

Arian Cinio ac Arian Pecyn i fod mewn ar ddydd Llun am yr wythnos neu ar ddechrau hanner tymor mewn amlen efo enw'r plentyn arno'n glir. Cost cinio yw £2.20 y diwrnod (£11 yr wythnos; £83.60 am yr hanner tymor yma). Sieciau'n daladwy i 'Cyngor Sir Ddinbych'. Cost pecyn yw £1 yr wythnos, sieciau'r daladwy i'r ysgol.

Gwersi Nofio – Ni fydd gwersi nofio'r tymor yma gan fod pwll nofio Rhuthun ar gau.

Addysg Gorfforol - Bydd angen dillad ymarfer corff ar y dyddiau hyn:
Derbyn - dydd Gwener; BI 1 a 2 - dydd Llun & Mawrth; BI 3 a 4 - dydd Llun & Mawrth; BI 5 a 6 - dydd Iau & Gwener.

Wellingtons - Gofynnwn i blant Meithrin, Derbyn, BI 1 a 2 ddod â phâr o wellingtons, gyda'u henwau arny'n nhw, i'r ysgol i'w cadw yma am y flwyddyn.

Clwb Chwaraeon a Chlwb Pêl-droed - Bob dydd Mawrth i blant BI 3-6 o 3.15 - 4.15yp. Gofynnwn yn garedig am £1 y plentyn i brynu adnoddau. Clwb cyntaf Dydd Mawrth, Medi 18.

Parcio - Cofiwch ein bod yn gofyn i bawb sy'n dod i nôl eu plant o'r ysgol barcio wrth neuadd Eleanor a cherdded at yr ysgol. Yn unol â chais gan swyddogion lechyd a Diogelwch o'r Sir, rydym yn gofyn yn garedig i chi beidio â pharcio ar y pafin y tu allan i'r ysgol nac i fyny'r lôn wrth ymyl yr ysgol. A fydddech hefyd cystal ag egluro'r drefn yma wrth berthnasau, ffrindiau, cymdogion sy'n dod i nôl eich plant yn achlysurol. Mae llwybr wedi ei greu o neuadd Eleanor, drwy dir yr Eglwys, sy'n eich galluogi i ddod allan gyferbyn â'r ysgol. Byddai defnyddio'r llwybr yma yn llawer diogelach na cherdded heibio'r Ceffyl Gwyn. Gofynnwn hefyd i'r plant hynny sy'n cerdded neu'n dod i'r ysgol mewn ceir wisgo siaced felen. **Mae'r rheolau parcio yma hefyd yn berthnasol i'r rhieni sy'n dod â phlant i'r Clwb Brechwast.** Llawer o ddiolch am eich cydweithrediad.

Presenoldeb - Mae'r Sir yn parhau i edrych ar bresenoldeb plant. Mae'n ofynnol eich bod yn ffonio neu'n anfon nodyn i'r ysgol os ydy'ch plentyn yn absennol, neu bydd yr absenoldeb yn cael ei gyfri' fel un diawdurdod. Mae absenoldeb ar wyliau hefyd yn absenoldeb diawdurdod. Gofynnaf yn garedig hefyd i bob plentyn gyrraedd yr ysgol erbyn 8.50y.b. Bydd pob plentyn fydd yn cyrraedd ar ôl amser cofrestru yn cael ei gofnodi'n 'hwyr', felly'n absennol heb awdurdod.

Gwersi Offerynnol – Eto eleni, mae'n ofynnol i daliad y tymor gael ei anfon i'r ysgol cyn y wers gyntaf. Felly gofynnwn i bawb sy'n mynd i gael gwersi offerynnol drwy'r ysgol eleni anfon y taliad o £60 i'r ysgol erbyn dydd Llun nesaf, Medi 10.

Dathlu Diwrnod Owain Glyndŵr – Ar ddydd Gwener, Medi 14 byddwn yn dathlu diwrnod Owain Glyndŵr. Gofynnwn i'r plant ddod i'r ysgol yn gwisgo gwisg addas o'r cyfnod – tywysog neu dywysoges. Os nad oes gennych wisg addas, gofynnwn i'r plant wisgo dillad coch neu felyn.

Noson Rien Gyffredinol – Bydd noson rien gyffredinol i gyflwyno rhieni i waith a threfn y dosbarthiadau ar brynghawn Mercher, Medi 26. Rhieni BI 1 a 2 am 3.30yp; rhieni BI 3, 4, 5 a 6 am 4.00yp.

Rhifau Cyswllt Rhieni – Mae'n hanfodol bwysig bod gan yr ysgol rifau ffôn a manylion cyswllt cyfredol ar gyfer bob plentyn. Os yw eich manylion wedi newid mewn unrhyw ffordd yn ddiweddar, gan gynnwys eich cyfeiriad cartref, a fyddoch cystal ag anfon nodyn neu ebost i'r ysgol efo'r manylion newydd.

Ymaelodi â'r Urdd – Ewch i wefan yr Urdd er mwyn ymaelodi eich plentyn/plant ar gyfer 2018/2019. Manylion llawn ar y daflen 'Ymunwch â'r Urdd!'.

Trefniadau Gwersi Mathemateg BI 3-6 - Ar ddechrau blwyddyn academaidd newydd rydym wedi penderfynu newid trefniadau gwersi Mathemateg. Ar ôl edrych ar sgôr profion cenedlaethol eich plentyn ac ystyried asesiad yr athro mi fydd y plant yn cael eu rhannu i dri grŵp dysgu. Bydd un o'r grwpiau yn llai o ran niferoedd er mwyn canolbwyntio ar atgyfnerthu sgiliau sylfaenol mathemateg a datblygu hyder y disgyblion. Os hoffech fwy o wybodaeth neu i drafod y mater ymhellach peidiwch ag oedi cysylltu.

Dyddiadau pwysig eraill:

14/9/18	Diwrnod Owain Glyndwr
21/9/18	1.15yp Gwasanaeth o Groeso yn yr Eglwys
24/10/18	3.30-6.00yp Noson Rien ar gyfer rhieni plant Derbyn-BI 6
26/10/18	1.15yp Gwasanaeth Diolchgarwch yn yr Eglwys
26/10/18	Ysgol yn cau am yr hanner tymor
6/11/18	Ysgol yn ail agor i'r disgyblion
17/12/18	1.15yp & 6.00yh Gwasanaeth Nadolig yn yr Eglwys

Yn gywir
Helen Oldfield

Ysgol Reoledig Llanfair Dyffryn Clwyd
Llanfair Dyffryn Clwyd
Rhuthun
Sir Ddinbych LL15 2RU
Ffôn: 01824 703169
Ebost: llanfair.dc@sirddinbych.gov.uk
Gwefan: www.ysgollanfairdc.cymru
Trydar: @ysgllanfairdc



Llanfair Dyffryn Clwyd Controlled School
Llanfair Dyffryn Clwyd
Ruthin
Denbighshire LL15 2RU
Phone: 01824 703169
Email: llanfair.dc@sirddinbych.gov.uk
Website: www.ysgollanfairdc.cymru
Twitter: @ysgllanfairdc

Helen Oldfield BA
Pennaeth

Ysgol Reoledig Llanfair Dyffryn Clwyd

Helen Oldfield BA
Headteacher

5/9/18

Dear Parents

Welcome back after the summer holiday. A special welcome to 13 children who are starting the Nursery class. We hope that they will be very happy here at Ysgol Llanfair. This is an exciting time for Ysgol Llanfair and I look forward to working with the pupils, parents, staff and governors whilst preparing to move to a new school site.

Dinner and Snack Money to be in on Mondays for the week or at the beginning of every half term in an envelope with the child's name clearly marked. Dinners cost £2.20 per day (£11 for a week; £83.60 for this half term). Cheques to be made payable to Denbighshire County Council. Snacks costs £1 per week, cheques made payable to the school.

Swimming Lessons – There will be no swimming lessons this term as the pool in Ruthin will be closed.

PE Lessons - PE kits should be brought to school on these days:

Reception - Friday; Yr 1 & 2 – Monday & Tuesday; Yr 3 & 4 – Monday & Tuesday; Yr 5 & 6 – Thursday & Friday.

Wellingtons - We ask that Nursery, Reception, Yr 1 and 2 children bring a pair of wellingtons to school, printed with their names, to keep here for the year.

Sports Club & Football Club - Every Tuesday at 3.15-4.15pm for years 3-6. We ask kindly for a donation of £1 per child to buy resources. Starts Tuesday, 18 September.

Parking – A reminder that everyone who bring their children to school by car should park at Neuadd Eleanor and walk to the school gate. As advised by the Health and Safety officials from the county, we ask all parents to kindly refrain from parking on the pavement outside school or up the narrow vicarage lane. Please inform all relatives, friends or neighbours who occasionally come to pick your children from school. There is a footpath leading from the village hall, through the church grounds and out opposite the school. This would be much safer than walking on the narrow pavement by the White Horse. We also ask that all children who walk to school or come by car wear a yellow 'high vis' jacket. **These parking rules also apply to parents bringing their children to the Breakfast Club.** Thank you for your co-operation.

Attendance - The County continue to closely monitor attendance in schools. We must receive a telephone call or letter to explain any absences, otherwise the absence will be unauthorised. Term time holidays will also be recorded as unauthorised absences. I would also like all children to be at school by 8.50a.m. Children arriving after registration will be marked 'late' - therefore unauthorised.

Instrumental Lessons – We must receive payments for each term before the lessons start. We therefore ask that all those receiving instrumental lessons in school bring this term's payment of £60 to school by next Monday, 10 September.

Owain Glyndŵr Day – On Friday, 14 September we will be celebrating Owain Glyndŵr day. We ask that the children come to school wearing a suitable costume from the period – e.g. prince or princess. If you do not have a suitable costume, we ask that the children wear something red or yellow.

General Parents' Evening – These will be general information evenings for parents outlining the classes' work and organisation on Wednesday afternoon, 26 September. Yr 1 & 2 parents at 3.30pm and Yr 3-6 parents at 4.00pm.

Emergency Contact Details – It is vitally important that we have up-to-date phone and contact details for every child. If your details have recently changed in any way, please send a note or email to school with the new details.

Urdd Membership – Go to the Urdd website to pay membership for your child/children for 2018/2019. Full details on the 'Join the Urdd Today!' leaflet.

Mathematics Lessons Yr 3-6 - Arrangements for Mathematic lessons have changed this year. After considering the pupils' scores in the National Tests and teacher assessment the pupils will be divided into three teaching groups. One of these groups will be smaller in numbers to concentrate on reinforcing basic Mathematic skills and concepts whilst developing pupil confidence. If you would like more information or to discuss this matter further please contact school.

Other important dates:

21/9/17	1.15pm Welcome Service in the Church
24/10/18	3.30-6.00pm Paents' evening for Reception-Yr 6 parents
26/10/18	1.15pm Thanksgiving Service in the Church
26/10/18	School closes for half term holiday
6/11/18	School re-opens for the pupils
17/12/18	1.15pm & 6.00pm Christmas Service in the Church

Yours sincerely
Helen Oldfield